

# Cofnodion Grŵp Cynghorwyr Craffu Rhanbarthol Partneriaeth

**O bell trwy Microsoft Teams**

**Dydd Llun, 23 Hydref 2023 am 10.00 am**

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd L R Jones (Chair) yn Llywyddu

**Cynghorwyr**

Y Cyng. Lyndon Jones (Cynullydd Panel Craffu ar Berfformiad Addysg Abertawe)
Y Cyng. Peter Black (Cadeirydd Pwyllgor Rhaglen Graffu Abertawe)
Y Cyng. Huw Murphy (Cadeirydd y Pwyllgor Craffu ar Addysg, Pobl Ifanc ac Addysg Gymraeg)
Y Cyng. Sam Skyrme-Blackhall (Is-gadeirydd y Pwyllgor Craffu ar Addysg, Pobl Ifanc ac Addysg Gymraeg)
Y Cyng. Carys Jones (Cadeirydd Pwyllgor Craffu ar Addysg a Phlant Sir Gaerfyrddin)
Y Cyng. Sue Allen (Is-gadeirydd Pwyllgor Craffu ar Addysg a Phlant Sir Gaerfyrddin)

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Ian Altman | Swyddog Arweiniol Partneriaeth |
| Helen Morgan-Rees | Cyfarwyddwr Arweiniol a Chyfarwyddwr Addysg yn Abertawe |
| Cressy Morgan | Ymgynghorydd Strategol Partneriaeth |
| Dylan Williams | Arweinydd Strategol Partneriaeth |
| Andrew Owen | Pennaeth Ysgol Gyfun Gellifedw |
| Michelle Roberts | Swyddog Craffu (Abertawe) |

---

**27 Ymddiheuriadau am Absenoldeb**

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau. Croesawodd y Cadeirydd y Cyng. Sam Skyrme-Blackhall i'r Grŵp Cynghorwyr.

**28 Datganiad o Fuddiant**

Ni chafwyd yr un datganiad o fuddiant.

**29 Cofnodion a Llythyr(au) yn deillio o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Mehefin 2023**

Derbyniwyd y cofnodion a’r llythyr a oedd yn deillio o’r cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Hydref 2023.

**30 Edrych ar Berfformiad Blaenoriaeth 2 Partneriaeth**

Yn rhan o'i raglen waith, cytunodd y Grŵp Cynghorwyr i edrych ar berfformiad un flaenoriaeth wahanol o blith pedair blaenoriaeth Partneriaeth ym mhob cyfarfod.

Felly, croesawodd y Grŵp Cynghorwyr Ian Altman, Dylan Williams, Cressy Morgan ac Andrew Owen (Pennaeth Ysgol Uwchradd Gellifedw) i'r cyfarfod. Aethant ati i roi cyflwyniad ac i amlinellu'r cynnydd mewn perthynas â Blaenoriaeth 2 Cynllun Busnes Partneriaeth ar gyfer 2023-2024.

Roedd yr adroddiad a'r drafodaeth yn ystyried y canlynol:

Ymgorffori egwyddorion a phrosesau sy'n sail i degwch addysgol ym mhob ysgol a lleoliad addysgol. Ein nod yw sicrhau nad yw amgylchiadau personol neu gymdeithasol yn rhwystr i gyflawni potensial addysgol, a bod pob ysgol a lleoliad yn anelu'n uchel ar gyfer pob dysgwr. Gwneir hyn trwy:

I. Barhau i gefnogi ysgolion a lleoliadau addysgol i ddeall y modd i liniaru effaith tlodi ar ymgysylltiad, cyflawniad a chyrhaeddiad.
II. Parhau i gefnogi ysgolion a lleoliadau addysgol i ddeall y modd i liniaru effaith trawma ar ymgysylltiad, cyflawniad a chyrhaeddiad.
III. Gweithio gyda phartneriaid allweddol i ymgorffori dulliau cyffredinol seiliedig ar dystiolaeth i hyrwyddo iechyd a llesiant cadarnhaol.

Amlinellodd Pennaeth Ysgol Gynradd Gellifedw rywfaint o'r gwaith y mae'r ysgol yn ei wneud mewn perthynas â lliniaru effeithiau tlodi ar ddisgyblion yn yr ysgol. Dywedodd fod effaith hyn ar yr ysgol wedi bod yn ddramatig. Bod yr ysgol bob amser wedi bod yn gynhwysol ond bod y gwaith diogelu rhag tlodi wedi ei helpu i ystyried hyn mewn ffordd fymryn yn wahanol, a hynny trwy edrych ar yr heriau y mae rhai disgyblion yn eu hwynebu bob dydd. Roedd o'r farn bod yr Archwiliad Diogelu Rhag Tlodi a gynhaliwyd y llynedd wedi bod yn brofiad buddiol a chadarnhaol i'r ysgol. Amlinellodd rywfaint o'r gwaith sydd wedi bod yn mynd rhagddo oddi ar yr archwiliad mewn perthynas â diogelu rhag tlodi, er enghraifft, athrawon yn dod yn fwy ymwybodol o lawer o lesiant disgyblion, a sicrhau bod y wisg ysgol yn llawer llai rhagnodol ac felly'n fwy economaidd i'w phrynu.

Roedd y gwaith a oedd yn mynd rhagddo yn yr ysgol wedi creu argraff ar y Grŵp Cynghorwyr, a diolchwyd i'r Pennaeth am ei fewnbwn gwerthfawr i'r cyfarfod.

## 31 Amlinelliad o Agenda Cyd-bwyllgor Partneriaeth a gynhaliwyd ar 6 Hydref 2023 ac unrhyw Adborth

Rhoddodd Helen Morgan Rees ddiweddariad i'r Grŵp Cynghorwyr ar ganlyniadau Cyd-bwyllgor Partneriaeth a gynhaliwyd ar 6 Hydref 2023. Nodwyd y pwyntiau canlynol:

- Penderfynodd y Cyd-bwyllgor ddiwygio ei ddewis o aelod â phleidlais ar Gyd-bwyllgor Partneriaeth. Bydd hyn yn darparu hyblygrwydd ar gyfer y tri awdurdod lleol ac yn rhoi'r dewis iddynt enwebu eu haelod o'r Cabinet sydd â'r portffolio addysg, yn lle eu Harweinydd, fel eu haelod â phleidlais. Bydd yn rhaid i bob Awdurdod Lleol gytuno i hyn.
- Daeth y llythyr o gyfarfod diwethaf y Grŵp Cynghorwyr i law'r Pwyllgor.
- Edrychodd y Pwyllgor ar yr adroddiad ariannol, gan gynnwys cyfraniadau gan bob awdurdod lleol, cytundebau lefel gwasanaeth, trefniadau monitro'r gyllideb, incwm grant ac unrhyw risgiau cysylltiedig.

- Ystyriwyd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol lle bu i adolygiad y gwasanaeth Archwilio Mewnol roi dyfarniad sicrwydd cymedrol ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau llywodraethu, rheolaeth fewnol, rheoli risg, a rheolaeth ariannol sydd ar waith. Roedd pob agwedd a godwyd wedi cael ei rhoi ar waith, yn cynnwys gwella a chryfhau'r cynllun busnes.
- Daeth Rhaglen Waith Archwilio Mewnol Partneriaeth ar gyfer 2023-24 i law'r Cyd-bwyllgor i'w chymeradwyo. Roedd y Rhaglen Waith wedi cael ei pharatoi'n unol â gofynion Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus.
- Daeth adroddiad i law'r Cyd-bwyllgor yn darparu gwybodaeth am ddarpariaeth a pherfformiad cynllun busnes blwyddyn ariannol 2023-24. Caiff y cynllun busnes ei fonitro bob chwarter, a nodwyd bod bron pob cam gweithredu ar y trywydd iawn i gael ei gyflawni'n llawn erbyn mis Mawrth 2024.
- Daeth adroddiad i law'r Cyd-bwyllgor yn cynnwys ymateb i arolwg barn rhanddeiliaid Partneriaeth oddi ar dymor yr haf 2023. Mynegodd y Cyd-bwyllgor siom ynghylch nifer isel y Penaethiaid a lenwodd yr arolwg. Mewn ymateb, dywedwyd wrth y pwyllgor fod hyn yn ganlyniad i nifer o resymau, yn cynnwys y camau gweithredu heb fod yn bell o streicio. Cafodd hyn effaith negyddol ar y gyfradd lenwi, a phenderfynwyd estyn yr arolwg yn achos grwpiau penodol.

## 32 Y Proffil Risg Diweddaraf

Dywedodd Ian Altman wrth y Grŵp Cynghorwyr mai dim ond ychydig bach y mae'r adroddiad a ddarparwyd wedi cael ei ddiwygio i adlewyrchu'r cynllun busnes newydd a'i flaenoriaethau.

## 33 Diweddariad ar Cwricwlwm i Gymru

Rhoddodd Ian Altman adroddiad i'r Grŵp Cynghorwyr yn rhoi trosolwg o'r cymorth cyfredol ar gyfer ysgolion mewn perthynas â Cwricwlwm i Gymru. Clywsant fod pob lleoliad cynradd a hanner y lleoliadau uwchradd wedi mabwysiadu Cwricwlwm i Gymru ym mis Medi 2022, a bod pob ysgol arall wedi ei fabwysiadu ym mis Medi 2023. Roedd yr adroddiad yn cwmpasu gofynion y cwricwlwm, heriau o ran cynnydd ac asesu, gweithio mewn clwstwr, a'r ysgolion sy'n cael y cymorth mwyaf. Cafodd y pwyntiau canlynol eu codi a'u trafod:

- Yr angen i fynd â phob athro ar y daith gyda ni
- Yr heriau o ddiwallu anghenion clystyrau unigol o ysgolion
- Gweithio ar y cyd â chlystyrau
- Meithrin ymwybyddiaeth llywodraethwyr ysgolion o'r gwasanaethau a ddarperir gan Partneriaeth.

## 34 Trafod y pwyntiau ar gyfer y llythyr at Gadeirydd Cyd-bwyllgor Partneriaeth a fyddai'n deillio o'r cyfarfod hwn

Cytunodd y Grŵp Cynghorwyr i ysgrifennu llythyr at Gadeirydd y Cyd-bwyllgor yn dilyn cyfarfod heddiw.

## 35 Rhaglen Waith Craffu Partneriaeth

Nodwyd y Rhaglen Waith Craffu.